Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
Awdurdodau Tân Cyfun Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dyddiad: 04 Mawrth 2025

Annwyl Gyfaill,

# Ffurflen Rhagolwg Cyfalaf (FRC), 2025-26

Byddwn heddiw yn anfon e-bost at ein swyddog cyswllt yn eich awdurdod, yn cynnwys dolen at y ffurflen uchod a chanllawiau ynghylch sut i'w llenwi. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu dan adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Dylech lenwi'r daenlen a'i dychwelyd erbyn dydd 31 Mawrth 2025 drwy e-bost, **nid oes angen copi caled wedi'i lofnodi bellach.**

## 1. Gwybodaeth Rhagolwg Cyfalaf

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn parhau i ofyn am y data yma oddi wrth Awdurdodau Lleol Cymru er mwyn helpu i gynllunio cyllid y DU. Rydym yn deall y gallai'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gennych yn ystod y cam hwn o'r cylch cyllidebu fod yn amhendant ac y gallai gael ei heffeithio gan nifer o ffactorau amrywiol dros y misoedd nesaf.

Nid yw darparu'r wybodaeth hon nawr yn amharu ar benderfyniadau eich Awdurdod yn y dyfodol ynghylch cyllid cyfalaf. Fodd bynnag, byddai o gymorth mawr i Drysorlys Ei Mawrhydi pe gallech lenwi'r ffurflen rhagolwg cyfalaf amgaeedig gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir.

## 2. Defnyddio'r wybodaeth

Bydd y data'n cael eu cyfuno i ddarparu amcangyfrif o uchafswm y Gwariant Cyfalaf cynyddrannol y mae Awdurdodau Lleol yn ei ariannu eu hunain ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac yn cael ei ddefnyddio i fonitro gweithgarwch benthyca sector cyhoeddus a buddsoddi cyfalaf ar lefel y DU.

## 3. Gofynion y ffurflen

Mae'r ffurflen yn gofyn am amcangyfrifon o 'rwymedigaethau ychwanegol' cwmnïau a fyddai'n gwmnïau wedi'u rheoleiddio dan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) 1995 (OS 1995/849 fel y'i diwygiwyd), neu'n ddarostyngedig i Orchymyn Cwmnïau Meysydd Awyr Cyhoeddus (Cyllid Cyfalaf) 1996 (OS 1996/604 fel y'i diwygiwyd), fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi parhau i fod mewn grym yn 2025-26. Y rheswm am hyn yw bod rhwymedigaethau'r cwmnïau, er nad ydynt yn dod o dan y

Drefn Ddarbodus, yn dod o fewn cwmpas Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac felly'n berthnasol i benderfyniadau am Derfyn Cenedlaethol.

Ni fydd y data'n cael eu defnyddio mewn unrhyw ffordd wrth gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol nad ydynt yn gyfredol. Rydym wedi cytuno ar yr egwyddorion hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 4. Cyhoeddi ffigurau

Byddwn yn cyhoeddi'r ffigurau mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf ym mis Mehefin.

Caiff y ffigurau eu defnyddio o fewn Llywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau o ran gwariant refeniw a chyllido, ac i asesu effeithiau polisïau'r Llywodraeth. Bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio mewn ymatebion i Gwestiynau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth ymdrin â gohebiaeth weinidogol ac at ddibenion monitro mwy cyffredinol.

## 5. Manylion cyswllt

Anfonwch gopi o'r daenlen wedi'i chwblhau erbyn 31 Mawrth 2025 ac unrhyw ymholiadau neu ohebiaeth arall, yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru


**Ffôn**

Frank Kelly: 0300 025 5673

Jack Tennant: 0300 025 9221

**Post**

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ


Diolch i chi am eich cydweithrediad parhaus.

Yn gywir,


**Anthony Newby**

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,

Llywodraeth Cymru / Welsh Government